Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad yn dilyn monitro

**Consortiwm ERW**
**Heol y Coleg**
**Caerfyrddin**
**Sir Gaerfyrddin**
**SA31 3EQ**

**Dyddiad yr ymweliad: Tachwedd 2017**

**gan**


**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2017: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

## Canlyniad y monitro

Ym Mehefin 2016, arolygodd Estyn y gwasanaethau gwella ysgolion a ddarperir gan ERW. Ym mis Tachwedd 2017, ymwelodd Estyn ag ERW i adolygu'r cynnydd a wnaed gan y consortiwm mewn perthynas â'r argymhellion a amlygwyd yn yr arolygiad.

Wrth arfarnu'r cynnydd ar gyfer pob argymhelliad, ystyriom y canlynol:

- A yw'r consortiwm wedi deall y rhesymau wrth wraidd yr argymhelliad?
- A yw'r consortiwm wedi cymryd camau rhesymol i fynd i'r afael â'r argymhelliad yn llwyddiannus, gan ystyried ei fan cychwyn, yr amser rhwng yr arolygiad a'r ymweliad dilynol, a chymhlethdod y materion?
- A yw'r consortiwm wedi cael cefnogaeth briodol gan ei awdurdodau lleol partner wrth fynd i'r afael â'r argymhellion?
- A yw'r consortiwm wedi sicrhau bod newidiadau sy'n deillio o'i gynnydd wrth fynd i'r afael â phob argymhelliad wedi'u gwreiddio yn ei arferion gwaith i sicrhau gwelliant parhaus?

Wrth lunio barn am gynnydd yn erbyn yr argymhellion, fe wnaeth y tîm monitro ystyried y tueddiadau mewn perfformiad dros y pum mlynedd diwethaf fel cyd-destun ar gyfer yr arfarniad o effaith gwaith y consortiwm mewn ysgolion. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi na ellir priodoli deilliannau i waith y consortiwm rhanbarthol yn unig, gan fod partneriaid eraill yn y system yn chwarae rhan bwysig hefyd.

Ystyriodd y tîm monitro amrywiaeth o dystiolaeth, gan gynnwys cynllunio busnes gan y consortiwm, arfarniadau, adroddiadau ymgynghorwyr her, gweithdrefnau gosod targedau, asesiadau risg a safbwyntiau penaethiaid.

Nid yw Estyn yn bwriadu cynnal unrhyw ymweliadau dilynol pellach ag ERW. Bydd unrhyw feysydd i'w gwella sy'n weddill yn cael eu monitro'n anffurfiol gan arolygydd cyswllt rhanbarthol Estyn ac arolygwyr cyswllt perthnasol yr awdurdod lleol ac yn cael eu hystyried yn ystod arolygiadau gwasanaethau addysg llywodraeth leol yn y dyfodol.

## Cynnydd ers yr arolygiad diwethaf

Ers yr arolygiad ym Mehefin 2016, mae cynnydd cyffredinol wrth fodloni'r pedwar argymhelliad wedi bod yn gymharol araf. Mae tîm canolog ERW a'r chwe awdurdod lleol wedi'i chael hi'n anodd cynyddu cyflymder y gwelliant o dan y trefniadau llywodraethu presennol.

Ym Medi 2017, fe wnaeth y cydbwyllgor gyfarwyddo'r prif weithredwr arweiniol, y swyddog Adran 151 a'r rheolwr gyfarwyddwr i sefydlu tîm rhaglen gyda strwythurau llywodraethu addas a mynediad at y wybodaeth ariannol a'r wybodaeth adnoddau dynol briodol i:

- Gadarnhau, cytuno ar, a chofnodi rolau ac atebolrwydd perthnasol yr awdurdodau lleol a'r rhanbarth mewn perthynas â holl swyddogaethau a gwasanaethau gwella ysgolion
- Rheoli'r prosiect i gadarnhau, cwmpasu a llunio'r trefniadau atebolrwydd ar gyfer cyflogi a defnyddio staff gwella ysgolion, gan gynnwys ymgynghorwyr her. Bydd hyn yn caniatáu i'r consortiwm gyflwyno un gwasanaeth gwella ysgolion effeithiol a chydymffurfio'n llawn â gofynion Llywodraeth Cymru
- Adolygu trefniadau ariannol i alluogi'r consortiwm i gyflwyno un gwasanaeth gwella ysgolion effeithiol a chydymffurfio'n llawn â gofynion Llywodraeth Cymru
- Datblygu a chostio model cyflwyno sefydliadol i fodloni blaenoriaethau a nodir, wedi'i ategu gan gynllun gweithredu cynhwysfawr yn cynnwys graddfeydd amser a chostau llawn
- Enwi tîm canolog ERW, gyda digon o allu strategol a gweithredol
- Sefydlu cynlluniau clir i sicrhau a chynnal cyfathrebu effeithiol gyda'r chwe chyfarwyddwr addysg a phenaethiaid, a'u hymgysylltiad, trwy gydol y broses, a sicrhau bod y cynllun busnes yn cael ei weithredu'n gyson
- Dwyn ynghyd y gwaith o esblygu'r rhanbarth gyda phob grant erbyn Ebrill 2018 ac adnoddau eraill, gan gynnwys staff, o Fedi 2018 ymlaen
- Adolygu trefniadau canolfannau.

Disgwylir i'r tîm rhaglen adrodd i'r cydbwyllgor, gyda set o gynigion cychwynnol, yn Rhagfyr 2017, i'w hystyried gan y chwe awdurdod lleol cyn i'r cydbwyllgor wneud penderfyniad terfynol.

**Argymhelliad 1: Sicrhau bod gwasanaethau gwella ysgolion yn mynd i'r afael â pherfformiad ysgolion sy'n destun pryder, yn enwedig yn y sector uwchradd.**

Cynnydd cyfyngedig wrth fynd i'r afael â'r argymhelliad

Nododd adroddiad arolygu Mehefin 2016, 'er nad yw rhai ysgolion uwchradd yn gwneud cynnydd da, mae'r rhesymau am hyn, yn rhannol, yn fater i'r awdurdodau lleol perthnasol fynd i'r afael ag ef yn hytrach na'r gwasanaeth gwella ysgolion rhanbarthol'. Yn y 18 mis ers yr adroddiad, mae tîm canolog ERW wedi cyflwyno amrywiaeth o fesurau priodol i wella ansawdd yr her a'r cymorth i ysgolion sy'n destun pryder. Fodd bynnag, mae'r llinellau atebolrwydd ar gyfer mynd i'r afael â phroblemau yn yr ysgolion hyn yn aneglur o hyd rhwng y tîm canolog a'r chwe awdurdod lleol.

Cyn arolygiad Mehefin 2016, roedd ychydig ysgolion uwchradd mewn dau o awdurdodau'r rhanbarth yn achosi pryder sylweddol. Ar ddyddiad yr adolygiad hwn, 18 mis yn ddiweddarach, mae pob un ond dwy ysgol o'r grŵp hwn o ysgolion mewn categorïau statudol o hyd. Mae hyn yn golygu eu bod yn methu darparu safon dderbyniol o addysg i'w disgyblion dros gyfnod sylweddol. Nid oes cytundeb clir rhwng y tîm canolog, arweinwyr yn y chwe awdurdod lleol a'r ysgolion eu hunain ar ystod briodol o gamau i ysgogi gwelliant.

Mae ERW yn fwy effeithiol o ran cefnogi gwelliant mewn ysgolion cynradd ac ychydig ysgolion yn unig sy'n parhau mewn categori statudol am gyfnod estynedig.

Mae'r tîm canolog wedi sicrhau rhaglen gynhwysfawr o hyfforddiant i gefnogi a datblygu gwaith ymgynghorwyr her cynradd ac uwchradd ar draws y rhanbarth. Mae'r holl ymgynghorwyr her yn manteisio ar hyfforddiant ac arweiniad o ansawdd da, yn enwedig ar gyfer cefnogi a herio ysgolion sy'n destun pryder, cyn bod ymweliadau craidd ag ysgolion yn digwydd. Mae hyn yn helpu i wella cysondeb a chywirdeb categoreiddio ysgolion. Mae hyfforddiant pwrpasol pellach, wedi'i amlygu trwy hunanarfarniad yr ymgynghorydd her, yn helpu i wella agweddau penodol ar eu gwaith, fel hybu ysgrifennu adroddiadau yn fwy arfarnol a gwybod sut i gynnal sgyrsiau anodd ag ysgolion sy'n destun pryder. Mae trefniadau priodol i sicrhau ansawdd adroddiadau ymweliadau craidd. Mae ERW yn ymateb yn dda i bryderon ymgynghorwyr her ac wedi gwella systemau i rannu gwybodaeth, er enghraifft am arfer dda o ran cymorth ysgol-i-ysgol. Mae'r mesurau hyn yn cael effaith gadarnhaol ar ansawdd gwaith y rhan fwyaf o ymgynghorwyr her. Fodd bynnag, lle bo'r tîm canolog yn parhau i bryderu am ansawdd gwaith rhai ymgynghorwyr her, nid yw arweinwyr consortiwm yn gallu mynd i'r afael â hyn yn uniongyrchol oherwydd y chwe awdurdod lleol sydd yn gyfrifol o hyd am reoli perfformiad bron pob un o'r ymgynghorwyr her.

Ers Ebrill 2017, mae tri ymgynghorydd her, o dan reolaeth uniongyrchol tîm canolog ERW, wedi cefnogi ysgolion uwchradd yn Sir Benfro. Fodd bynnag, mae'n rhy gynnar eto i asesu effaith y fenter hon wrth ysgogi gwelliannau mewn ysgolion uwchradd, yn enwedig yn y tair ysgol y mae'r pryderon mwyaf amdanynt.

Mae'r tîm canolog wedi cyflwyno system well i gipio amrywiaeth eang o wybodaeth am bob ysgol yn y rhanbarth yn fwy cynhwysfawr. Mae hyn yn caniatáu i gynnydd y rhan fwyaf o ysgolion gael ei fonitro'n well gan uwch arweinwyr. Fodd bynnag, pan fydd ysgolion yn cael cymorth ychwanegol oherwydd pryderon, yn aml, nid yw'r meini prawf llwyddiant i'w defnyddio i fesur effaith y cymorth a ddarperir wedi'u nodi'n ddigonol.

Mae arweinwyr dysgu'n gweithio'n agos gydag ymgynghorwyr her ysgolion uwchradd i roi cymorth ychwanegol, er enghraifft i adrannau Cymraeg, Saesneg a mathemateg mewn ysgolion lle y mae problemau â'u perfformiad. Fodd bynnag, mae deilliannau yn sgil y cymorth hwn yn amrywio'n fawr.

Mae cyfarfodydd diweddar bwrdd gweithredol ERW wedi cynnwys eitemau ar yr agenda i adolygu cynnydd ysgolion sy'n destun pryder. Fodd bynnag, nid yw ansawdd y wybodaeth a gyflwynir i'r bwrdd a'r drafodaeth ganlynol gan y bwrdd mewn cyfarfodydd diweddar wedi rhoi ystyriaeth ddigon da i'r rhesymau pam nad yw ychydig ysgolion wedi gwneud y cynnydd disgwyliedig. Mae hyn yn golygu nad yw aelodau'r bwrdd gweithredol yn rhoi gwybodaeth briodol i'r cydbwyllgor i ganiatáu i aelodau herio uwch arweinwyr ar draws ERW yn effeithiol am y diffyg cynnydd hwn.

**Argymhelliad 2: Sicrhau bod cynllunio ar gyfer gwella addysg yn integreiddio blaenoriaethau lleol a rhanbarthol yn glir, fel bod cynlluniau ERW ac awdurdodau lleol yn ategu ei gilydd ac yn cynnwys camau gweithredu sy'n benodol a mesuradwy, gyda cherrig milltir priodol ar gyfer cyflawni.**

Cynnydd boddhaol wrth fynd i'r afael â'r argymhelliad

Ers yr arolygiad craidd, mae ERW wedi gwella strwythur ei gynllun busnes blynyddol i sicrhau bod perthynas glir rhwng ei flaenoriaethu a chynlluniau pob awdurdod lleol yn y rhanbarth.  Mae hyn yn rhoi llinellau atebolrwydd clir ar gyfer camau gweithredu ac mae'n llywio gwaith y staff canolog o ddydd i ddydd yn llwyddiannus.  Fodd bynnag, yn aml, nid yw'r cynlluniau'n cynnwys cerrig milltir priodol ar gyfer cyflawni na thargedau ar gyfer gwella sy'n ddigon penodol neu fanwl o ran deilliannau disgwyliedig neu fesuradwy.  Mae hyn yn ei gwneud hi'n anodd i arweinwyr arfarnu effaith camau gweithredu ar ddeilliannau neu gynnydd disgyblion.

Mae arweinwyr wedi darparu hyfforddiant cynhwysfawr i'r holl staff gwella ysgolion sy'n eu galluogi i gael dealltwriaeth gliriach o'r blaenoriaethau yn y cynllun busnes a'u rôl yn cyflwyno agweddau penodol arno yn lleol.

Mae'r tîm canolog wedi datblygu system fonitro electronig ddefnyddiol i gofnodi statws y gweithgareddau yn ei gynllun busnes.  Mae hyn yn galluogi arweinwyr i fonitro cynnydd y rhain yn effeithiol, amlygu unrhyw risgiau posibl yn gynnar a chefnogi staff i gywiro unrhyw ddiffygion yn briodol.  Fodd bynnag, nid yw'r diffygion yn ansawdd y wybodaeth yn y system yn helpu arweinwyr i arfarnu effaith yr holl weithgareddau'n gyson ar wella deilliannau i ddisgyblion.

**Argymhelliad 3:  Sicrhau bod gwaith y prif fyrddau a gweithgorau yn cael ei gofnodi'n ofalus a chyson, fel bod pryderon, penderfyniadau a chamau gweithredu'n glir, yn archwiliadwy, bod costau llawn ar eu cyfer, a'u bod yn galluogi arweinwyr i fonitro cynnydd.**

Cynnydd boddhaol wrth fynd i'r afael â'r argymhelliad

Ers yr arolygiad craidd, mae ERW wedi cyflwyno dull cyson o gofnodi gwaith y prif fyrddau yn glir ac yn ofalus.  Mae hyn yn cynnwys dulliau cyffredin o osod agendâu, gwneud cofnodion a monitro camau gweithredu rhwng cyfarfodydd.  Yn ogystal, mae'r tîm canolog wedi darparu arweiniad defnyddiol i gadeiryddion ac aelodau grwpiau ar eu rolau a'u cyfrifoldebau, ac ar sut y disgwyliant i'r grwpiau weithredu.

Mae ERW wedi datblygu system electronig ddefnyddiol i gofnodi gwaith y 5 bwrdd sy'n goruchwylio'r prif flaenoriaethau yn y cynllun busnes, yn ogystal â gwaith yr amrywiaeth eang o weithgorau sy'n cefnogi'r byrddau hyn.  Mae'r system hon yn galluogi arweinwyr yn y tîm canolog i fonitro cynnydd camau gweithredu, olrhain gwaith sy'n rhedeg yn hwyr ac ymateb i risgiau a amlygir.  O ganlyniad, mae'r arweinwyr hyn yn fwy effeithiol wrth godi pryderon pwysig am gynnydd gyda'r bwrdd gweithredol a'r cydbwyllgor.

Fodd bynnag, yn rhy aml dros y 18 mis diwethaf, mae'r bwrdd gweithredol a'r cydbwyllgor wedi derbyn adroddiadau heb her gadarn.  Mae hyn yn golygu mai prin yw'r camau gweithredu neu'r penderfyniadau sy'n deillio o'r adroddiadau a gyflwynir ac nid oes cofnod o unrhyw bryderon a fynegir.  Mae hyn er gwaethaf cynnydd araf mewn meysydd gwaith allweddol yn y rhanbarth, fel cynnydd ysgolion uwchradd sy'n destun pryder.

Yn ddiweddar, cafodd y cydbwyllgor adroddiadau a gododd bryderon arwyddocaol am drefniadau ariannol ERW a gwaith ymgynghorwyr her.  Mae wedi ymrwymo i adolygiad cynhwysfawr o strwythur a gweithrediad ERW o ganlyniad.

Mae swyddogion awdurdod lleol yn cadeirio llawer o weithgorau ond, yn aml, nid yw tîm canolog ERW yn cymryd rhan yng nghyfarfodydd y grwpiau hyn. Mae defnyddioldeb y wybodaeth sy’n cael ei llwytho i system electronig ERW gan y grwpiau hyn yn amrywio’n ormodol ac mae sicrhau ansawdd eu gwaith yn gyfyngedig. O ganlyniad, nid oes hyder gan arweinwyr yn y tîm canolog ynghylch p’un a yw camau gweithredu yn effeithiol a ph’un a ydynt yn ymwybodol o bryderon sydd angen sylw.

Mae absenoldeb mynych ddeilliannau penodol, mesuradwy a chostau manwl ynghlwm wrth gamau gweithredu yng nghynlluniau byrddau’r blaenoriaethau a chynlluniau gweithgorau yn cyfyngu ar ba mor dda y gall arweinwyr fonitro cynnydd ac arfarnu effaith.

**Argymhelliad 4: Mireinio’r fframwaith ar gyfer asesu gwerth am arian fel bod yr holl gostau perthnasol ar draws y chwe awdurdod yn cael eu hystyried yn llawn pan gânt eu gosod yn erbyn deilliannau.**

Cynnydd boddhaol wrth fynd i’r afael â’r argymhelliad

Mae ERW wedi sefydlu cyfres o gytundebau lefel gwasanaeth, er enghraifft cyllid, cyfathrebu ac adnoddau dynol, sy’n meintoli gwerth ariannol y gwasanaethau cymorth sy’n cael eu darparu gan y chwe awdurdod lleol. Mae’r cytundebau lefel gwasanaeth hyn yn galluogi ERW i ddeall costau ei awdurdodau lleol partner wrth gefnogi ei waith yn well.

Mae’r fframwaith cynllunio busnes diwygiedig yn nodi’n glir pa gyllid grant neu gyllid craidd a ddefnyddir i gyflawni’r cynllun busnes. Mae uwch arweinwyr yn dwyn perchenogion y cynllun busnes i gyfrif yn rheolaidd. Mae hyn yn cynyddu’u dealltwriaeth o’r angen i ddefnyddio’r adnoddau sydd ar gael iddynt yn effeithiol. Fodd bynnag, mae ERW yn cydnabod y gall fireinio ymhellach sut y maent yn nodi’r adnoddau yn ei gynllun busnes.

Mae’r gwell gallu ariannol yn y tîm canolog yn caniatáu am fonitro’r defnydd ar adnoddau yn fanylach. Bellach, mae arweinwyr mewn sefyllfa well i gynnig sicrwydd ynghylch y defnydd priodol o gyllid ar draws gweithgareddau’r consortiwm. Yn ddiweddar, mae ERW wedi newid ei adrodd ariannol i ymateb i argymhelliad archwiliad allanol i roi trosolwg gwell i’r cydbwyllgor o gyllid grant. Mae’r fformat newydd yn rhoi dealltwriaeth fanylach i aelodau o’r ffordd y mae ERW yn defnyddio cyllid grant i fynd i’r afael â’i flaenoriaethau.

Mae gan ERW brosesau clir ar gyfer nodi a mynd i’r afael â risgiau ariannol ac mae’n cymryd camau priodol i liniaru’r rhain. Mae ERW yn gweithio’n effeithiol gyda’r consortia rhanbarthol eraill a Llywodraeth Cymru i sicrhau ei fod yn cael gwybod yn gynt am grantiau. Mae hyn yn galluogi ERW i gynllunio’i ddefnydd ar adnoddau’n fwy effeithiol.

Mae proses glir ar gyfer dwyn ysgolion i gyfrif am ddefnyddio cyllid grant sydd heb ei ddirprwyo’n uniongyrchol. Fodd bynnag, nid yw arfarniadau ysgolion o’r cyllid hwn yn canolbwyntio’n ddigonol ar effaith y gweithgareddau a wneir ar ddeilliannau disgyblion. I ymateb i argymhelliad archwiliad mewnol, mae ERW wedi rhoi arweiniad a hyfforddiant clir i ymgynghorwyr her i gefnogi eu harfarniad o ddefnydd

ysgolion ar gyllid grant dirprwyedig, gan gynnwys y grantiau datblygu disgyblion a gwella addysg. Bellach, mae ymgynghorwyr her yn arfarnu sut mae ysgolion yn bwriadu defnyddio'r grantiau hyn yn fwy effeithiol. Er gwaethaf hyn, mae anghysondebau o hyd yn y ffordd mae ychydig ysgolion yn cynllunio gwario'u grantiau ac arfarnu'r effaith ar ddeilliannau disgyblion. Mae ERW yn defnyddio'i fframwaith gwerth am arian i arfarnu'r defnydd ar y grantiau a gaiff ac mae hyn yn llywio'i broses hunanarfarnu. Fodd bynnag, mae ansawdd yr arfarniad o'r defnydd ar y grantiau hyn yn anghyson ac nid yw bob amser yn nodi'r effaith a gyflawnwyd yn glir.

Mae ERW yn cynnwys ei egwyddorion gwerth am arian yn ei brosesau cynllunio busnes ac mae hyn yn cynyddu ei ddealltwriaeth o'r ffordd y mae pob maes gweithgarwch yn cyfrannu at gyflawni'r gwerth gorau. Mae'n defnyddio'r fframwaith gwerth am arian i arfarnu gweithgareddau ei dîm canolog, er enghraifft i asesu p'un a yw prosesau gweinyddol digidol yn sicrhau gwelliannau mewn effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd. Fodd bynnag, mae adroddiadau ar werth am arian i'r cydbwyllgor yn ymwneud â gwaith y tîm canolog ac nid effaith gyffredinol yr holl weithgarwch ar draws y rhanbarth.

Mae uwch arweinwyr yn deall bod y ffordd mae'r sefydliad wedi'i gynllunio ar hyn o bryd yn cyfyngu ar allu ERW i gyflawni gwerth am arian. Mae hyn yn golygu bod amgyffrediad aelodau'r cydbwyllgor o'r graddau y mae'r consortiwm yn cyflawni gwerth am arian yn gyffredinol yn gyfyngedig.

## Argymhellion

Mae angen i ERW barhau i fynd i'r afael ag argymhellion yr arolygiad a nodwyd gan y tîm arolygu.